

# Super Rod Ltd

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae Super Rod Ltd yn dylunio, cynhyrchu a marchnata offer sy’n arbed gwaith llafur ar gyfer gweithwyr gosod ceblau proffesiynol mewn diwydiannau data, telathrebu a chlyweled.

Ar ôl cael ei lansio’n gychwynnol fel cwmni dosbarthu, mae Super Row bellach yn darparu amrywiaeth o offer sy’n lleihau’r gwaith llafur sydd ei angen yn ystod y broses osod, ac mae’n gyfrifol am 70% o farchnad y DU mewn marchnad fyd-eang sy’n werth dros £200m.

Cafodd Super Rod ei lansio yn gyntaf i ddiwallu anghenion trydanwyr, ond bellach mae’r cwmni yn darparu pecynnau wedi’u teilwra’n arbennig i beirianwyr gwasanaeth rhai o’r darparwyr cyfathrebu blaenllaw. Ar hyn o bryd mae ganddo sylfaen cwsmeriaid yn y DU, Gogledd America, Ewrop a Sgandinafia.

Llwyddodd y cwmni i ehangu i’r farchnad fyd-eang yn rhannol drwy gymorth ariannol gan Raglen Arloesedd Busnes Llywodraeth Cymru, a gefnogodd y weledigaeth o raglen gynhwysfawr yn cynnwys ymweliadau â sioeau masnach a chwsmeriaid dramor yn 2008.

Cafodd y cwmni gymorth i adnewyddu hen adeilad yn Nhorfaen a’i droi yn ganolfan gynhyrchu a dylunio aml-bwrpas hefyd, ac o ganlyniad, symudodd Super Rod i leoliad newydd a oedd yn 10,000 troedfedd sgwâr gan gyfuno ei holl weithrediadau o dan un to.

Yn sgil hyn, llwyddodd y busnes i gynnal gweithrediadau ar raddfa fwy a chynhyrchu’r capasiti ychwanegol oedd ei angen i gefnogi’r cynnydd mewn gwerthiant a brofwyd o ganlyniad i’w ymgyrch allforio, yn ogystal ag ymdopi â’r cynnydd mewn allbwn mewn modd na fyddai’r cwmni wedi gallu ei wneud fel arall.

Heddiw, mae Super Rod yn cyflogi 12 o bobl yn ei safle ym Mlaenafon ac mae’n priodoli dros 90% o’i werthiant i gynhyrchion a weithgynhyrchwyd gan y cwmni; mae tua hanner ei drafodion yn gysylltiedig ag allforio.

Meddai’r Prif Swyddog Gweithredol, Malcolm Duncan: “Penodwyd Rheolwr Cyfrif Llywodraeth Cymru ar gyfer Super Rod o’r dechrau, ac mae’r cyswllt personol hwn wedi parhau. Rydym wedi gweld un o’r dirwasgiadau gwaethaf erioed ers hynny, ond yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein busnes a’i dyfu, er mwyn ein paratoi’n dda ar gyfer yr adferiad. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrth law, ac roedd hyn yn brif ffactor yn ein penderfyniad i ymrwymo i Gymru ar gyfer y dyfodol a sefydlu ein cyfleuster newydd ym Mlaenafon.”

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:
**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk
**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk
**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG21727 / © Hawlfraint y Goron 2014